



Gwasanaeth  
**Mabwysiadu** | National  
Cenedlaethol | **Adoption**  
Service

**Achieving More Together /  
Cyflawni Mwy Gyda'n Gilydd**



## **Gwasanaeth mabwysiadu cenedlaethol**

Y fframwaith cyfreithiolar gyfer mabwysiadu  
canlaw i rieni mabwysiadol arfaethedig  
*2017*



## Cyflwyniad

Efallai eich bod yn cwestiynu pam bod angen i riant mabwysiadol arfaethedig wybod am y gyfraith mewn perthynas â mabwysiadu. Bydd eich gweithiwr cymdeithasol yn gwybod popeth sydd angen ei wybod mae'n debyg? Mae'n siŵr eich bod wedi ymdrin â'r gyfraith yn eich cwrs paratoi? Wel ydy, mae ef neu hi yn gwybod popeth a do, gwnaethoch chi ymdrin â'r gyfraith yn eich cwrs, ond mae ymchwil diweddar gan Brifysgol Caerdydd wedi dangos i ni fod mabwysiadwyr arfaethedig yn teimlo nad oeddent yn gwybod am agweddau cyfreithiol y broses, yn enwedig pan fo'r plentyn neu'r plant wedi'u lleoli.

Gallwch ddarllen crynodeb o'r ymchwil hwnnw ar ddiwedd y canllaw hwn. Mae'r ymchwil llawn ar gael [yma](#).

Mae'r canllaw hwn wedi'i ysgrifennu ar gyfer y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol gan Sarah Coldrick, ymgynghorydd cyfreithiol gydag AFA Cymru a Julie Doughty, darlithydd y gyfraith ym Mhrifysgol Caerdydd. Ei nod yw rhoi gwybodaeth i rieni mabwysiadol arfaethedig ar y fframwaith cyfreithiol ar gyfer pob cam o'r siwrne gymhleth hon i ddod yn deulu. Mae wedi'i roi at ei gilydd mewn ffordd lle gallwch ddewis adran benodol yn ôl yr angen. Caiff hefyd ei ddiweddarau'n rheolaidd ac mae'n cynrychioli darlun cywir o'r fframwaith cyfreithiol cyfredol yng Nghymru. Fodd bynnag, ni ddylid dibynnu ar y canllaw cyffredinol a roddir yma fel dewis amgen i gyngor cyfreithiol gan gyfreithiwr cymwys sy'n gysylltiedig ag unrhyw fater neu anghydfod cyfreithiol gwirioneddol. Ni ddylid ystyried unrhyw beth ar y wefan hon fel cyngor cyfreithiol ar sefyllfa neu broblem unigolyn. Mae cyngor rhagarweiniol ar gael gan nifer o sefydliadau a restrir ar ddiwedd y canllaw hwn.

### Mae'r canllaw yn cynnwys gwybodaeth ar:

<b>1</b>	Y system gyfreithiol yng Nghymru
<b>2</b>	Sut mae plant yn dod i fod ar gael i'w mabwysiadu
<b>3</b>	Rolau'r awdurdod lleol fel asiantaeth mabwysiadu a Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru
<b>4</b>	Eich siwrne chi eich hun a siwrne'ch plentyn o ran lleoli
<b>5</b>	Cyfrifoldeb rhianta – beth ydyw a sut rydych chi'n ei gaffael
<b>6</b>	Yr heriau posibl ar gyfer mabwysiadwyr arfaethedig yn y broses llys
<b>7</b>	Y system ar gyfer adolygu ac ymweld pan fo'r plentyn wedi'i leoli
<b>8</b>	Gwneud cais am orchymyn mabwysiadu
<b>9</b>	Cyswllt ôl-fabwysiadu
<b>10</b>	Gwasanaethau cymorth mabwysiadu
<b>11</b>	Rhannu gwybodaeth gyda'ch plentyn
<b>12</b>	Gwybodaeth a dolenni defnyddiol
<b>13</b>	Rhestr termau a thalfyriadau



# Adran

# 1

## Y system gyfreithiol yng Nghymru

Fel rhieni mabwysiadol arfaethedig bydd angen i chi wybod egwyddorion sylfaenol cyfraith teulu yng Nghymru a Lloegr a'r gwahaniaethau sy'n bodoli rhwng Cymru a Lloegr. Dyma ddisgrifiad byr o sut mae'n gweithio:

### Deddfwriaeth sylfaenol

Mae deddfwriaeth sylfaenol yn Ddeddf **Senedd y DU** neu Ddeddf **Cynulliad Cymru** ar gyfer materion sydd wedi'u 'datganoli' i Gymru.

Mae **Deddf Plant 1989 (DU)** a **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 (Cynulliad)** yn cynnig y fframwaith cyfreithiol i blentyn sy'n cael ei gefnogi o fewn ei deulu a'i gymuned. Maen nhw'n nodi dyletswyddau'r awdurdod lleol a phwerau'r llys:

- Beth yw cyfrifoldeb rhianta, gyda phwy mae'r cyfrifoldeb neu pwy all ei gael (a2 Deddf Plant 1989) (DP).
- Y gorchmynion ar gyfer lleoliadau o fewn y teulu ehangach – gorchmynion trefniadau plant a gorchmynion gwarcheidwaeth arbennig (a8 DP).
- Darparu asesiad ar gyfer gofal a chymorth dan Ran 3 a gwasanaethau dan gynllun gofal a chymorth dan Ran 4, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014. (Deddf GCL)
- Amddiffyn plant (y trothwyon ar gyfer ymyrryd mewn bywyd teuluol pan fo'r awdurdod lleol yn credu bod y plentyn yn dioddef neu'n debygol o ddioddef niwed sylweddol – a47 DP). Bydd gweithdrefn amddiffyn plant yn dilyn a fydd yn cynnwys cynhadledd amddiffyn plant, y plentyn yn cael ei leoli ar y gofrestr amddiffyn plant a chreu cynllun amddiffyn plant.
- Achosion gofal - y darpariaethau ar gyfer gorchmynion gofal interim dan a38 DP (a wneir yn ystod cyfres o achosion gofal) a gorchmyn gofal llawn, a wneir ar ddiwedd yr achosion gofal, dan a31 DP. Dyma'r broses lle mae'r awdurdod lleol yn ceisio a chyrru cyfrifoldeb rhianta, gyda gorchmyn gofal, am blentyn ac yn meddu ar gynllun gofal mabwysiadu ar gyfer y plentyn hwnnw a gefnogir gan y llys yn y gwrandawriad gofal olaf. Bydd y llys yn cefnogi mabwysiadu dim ond pan na fydd ailuno'r plentyn gyda rhieni geni neu leoli gyda theulu neu ffrindiau yn diwallu anghenion y plentyn.
- Y darpariaethau ar gyfer cyswllt os yw'r plentyn yn destun gorchmyn gofal interim neu orchymyn gofal.

Mae **Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (DU) (DMPH)**, gyda rhai diwygiadau bach yng Nghymru, yn nodi'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer mabwysiadu. Ar ôl i'r llys wneud y gorchymyn gofal a derbyn y cynllun gofal ar gyfer mabwysiadu, bydd y llys yn gwneud gorchymyn lleoli dan a21 DMPH. Mae'r gorchymyn hwn yn dangos bod y plentyn ar ei ffordd i gael ei leoli gyda theulu mabwysiadol. Bydd y gorchymyn lleoli ar waith hyd at y broses paru, cyflwyniadau a lleoli tan y gwneir gorchymyn mabwysiadu, dan a46 DMPH, neu tan y caiff y gorchymyn lleoli ei ddirymu gan y llys, yn yr achos hwnnw caiff y gorchymyn gofal ei ailgyflwyno.

### Is-ddeddfwriaeth

Mae hon yn ddeddfwriaeth nad oes rhaid iddi fynd trwy'r Senedd neu'r Cynulliad. Mae'n sylfaen i'r gyfraith. Caiff cyfraith gofal cymdeithasol ei datganoli ac felly Llywodraeth Cymru sy'n penderfynu ar eiriad Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005.

Mae pob awdurdod lleol yn 'asiantaethau mabwysiadu' ac mae ganddynt ddyletswyddau dan y rheoliadau hyn, sy'n ymwneud â:

- Gwneud penderfyniadau y dylai plentyn gael ei fabwysiadu
- Gwneud penderfyniadau bod ymgeiswyr mabwysiadol yn addas i gael eu mabwysiadu
- Gwneud penderfyniadau o ran lleoliadau arfaethedig h.y. Penderfyniadau ‘paru’.

Mae dwy asiantaeth mabwysiadu gwirfoddol hefyd (Cymdeithas Blant T Ddewi a Barnardo’s Cymru) yng Nghymru. Maen nhw’n gwneud penderfyniadau o ran a yw rhieni mabwysiadol yn addas i fabwysiadu ond nid oes ganddynt y ddwy swyddogaeth arall.

Mae Deddf Plant 1989 a Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 yn dweud wrth y llys bod rhaid i unrhyw benderfyniad a wna ystyried lles y plentyn yn y lle cyntaf. Mae DMPH hefyd yn rhoi’r ddyletswydd hon ar yr asiantaeth fabwysiadu. Mae hyn yn golygu, ar ôl ystyried hawliau a budd pawb, taw lles y plentyn fydd y peth pwysicaf.

Gweler isod am ragor o wybodaeth ar pwy wna’r penderfyniadau hyn a rôl y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol.

### Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol

Cafodd y Confensiwn hwn, sy’n dyddio’n ôl i ddiwedd y 1940au, ac adladd erchyll yr Ail Ryfel Byd, ei wneud yn rhan o’n cyfraith yng Nghymru a Lloegr trwy Ddeddf Hawliau Dynol 1998 (DHD). Fe wnaeth DHD erthyglau’r CEHD yn egwyddorion sylfaenol yn ein llysoedd teulu. Y prif erthyglau (at ein dibenion ni) yw:

- Erthygl 6 – yr hawl i brawf teg
- Erthygl 8 – yr hawl i fywyd preifat a theuluol.

Ers 2000 pan ddaeth y DHD i rym, mae nifer o gyfeiriadau wedi’u gwneud i’r erthyglau hyn mewn cyfraith achos, y mae’n rhaid eu dilyn (gweler isod).

Mae’r llys apelio terfynol ar gyfer y Confensiwn, Llys Hawliau Dynol Ewrop, yn Strasbourg. Nid oes ganddo unrhyw beth i’w wneud â’r UE a Brexit; y llys ar gyfer yr UE yw Llys Cyfiawnder Ewrop ac mae hwnnw yn Luxembourg.

### Cyfraith achos

Rôl yr uwch farnwriaeth yng Nghymru a Lloegr yw dehongli ystyr y statud (Deddfau’r Senedd neu’r Cynulliad) ac weithiau rheoliadau. Rhaid i’r penderfyniadau a wneir o ran dehongli’r gyfraith gael eu dilyn. Mae rhywfaint o’r gyfraith achos hwn wedi cael effaith ar fabwysiadu arferion.





## Adran 2

### *Sut mae plant yn dod i fod ar gael i'w mabwysiadu?*




Felly, mae cyfraith mabwysiadu yn bodoli mewn deddfwriaeth sylfaenol, mewn rheoliadau ac mewn cyfraith achos.

Mae amgylchiadau presennol a'r broses ar gyfer mabwysiadu yn wahanol iawn i'r cyfnod a welwn yn aml yn cael ei bortredu yn y cyfryngau, lle caiff teuluoedd eu hailuno, ar ôl cael eu gwahanu am flynyddoedd heb unrhyw wybodaeth na chyswllt. Mewn nifer o'r achosion hanesyddol hyn, roedd y plentyn dan sylw yn cael ei symud oherwydd bod y fam yn rhy ifanc a / neu heb briodi, neu ddim yn gallu darparu'n ariannol ar gyfer y plentyn.

Mae mwyafrif y plant sydd ar gael i'w mabwysiadu yng Nghymru heddiw wedi mynd trwy'r system 'gofal', ac mae'r fframwaith cyfreithiol wedi'i nodi isod. Weithiau mae plant yn cael eu 'gadael', hynny yw yn cael ei rhoi'n wirfoddol i'w mabwysiadu, ond mae hyn yn brin iawn ac mae proses gadarn yn bodoli i sicrhau bod y plant hyn yn cael eu rhoi'n wirfoddol. Gallwn eich sicrhau bod eich plentyn wedi mynd trwy system lle gwneir pob ymdrech i'w gefnogi i aros gyda'i riant (rhieni) geni neu gydag aelodau eraill o'r teulu. Ni chânt eu hawdurdodi i gael eu lleoli ar gyfer mabwysiadu oni bai bod y llys yn fodlon na wnaiff unrhyw beth arall heblaw am fabwysiadu weithio i ddiwallu anghenion y plentyn, nawr ac yn y dyfodol.

Mae'r diagram isod yn cynrychioli'r camau lle mae'r awdurdod lleol a'r llys teulu yn gysylltiedig.

## Siwrne'r plentyn trwy'r system ofal a'r dewisiadau ar gyfer sefydlogrwydd yng Nghymru



I gael rhagor o wybodaeth ar y darnau mewn **oren**, gweler adran 6.

**Yn ystod yr achos, bydd gan y plentyn/plant weithiwr cymdeithasol annibynnol, sef Gwarcheidwad y Plentyn, a benodir i sicrhau bod lles y plentyn yn dod gyntaf yn y gorchymynion a wneir. Bydd y Gwarcheidwad yn cael ei gynrychioli yn y llys gan gyfreithiwr y plentyn, cyfreithiwr profiadol sydd, eto, yn annibynnol ar yr awdurdod lleol.**

# Adran 3

## *Rolau'r awdurdod lleol fel asiantaeth mabwysiadu a Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru*

Mae'r rheoliadau a nodir uchod, Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005, yn nodi dyletswyddau'r asiantaeth mabwysiadu mewn perthynas â:

### **1. Gwneud penderfyniadau y dylai plentyn gael ei fabwysiadu**

Caiff y penderfyniad hwn ei wneud gan yr unigolyn sy'n gwneud y penderfyniadau yn yr asiantaeth a bydd yn uwch reolwr yn un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru, ac yn gyffredinol yr un awdurdod lleol a ddechreuodd yr achosion gofal ac sy'n ceisio gorchymyn gofal. Mae'n rhaid i'r unigolyn hwn wneud penderfyniad 'dylai gael ei fabwysiadu' cyn y gall y llys ystyried wneud cais gorchymyn lleoli.

Gwneir y penderfyniad ar ôl i'r unigolyn hwn ddarllen Adroddiad Mabwysiadu Plant (AMP) y plentyn. Mae hwn yn adroddiad helaeth, y cewch chi hefyd ei ddarllen wrth ystyried paru, ac mae'n rhoi manylion y plentyn a'r teulu ehangach. Bydd yr unigolyn sy'n gwneud y penderfyniad yn cael cyngor gan nifer o bobl, gan gynnwys yr ymgynghorydd meddygol mabwysiadu, a fydd wedi gweld y plentyn a dilyn holl hanes meddygol perthnasol (ac sydd ar gael) y teulu, a'r ymgynghorydd cyfreithiol. Ar ôl i'r penderfyniad gael ei wneud, gall yr awdurdod lleol / asiantaeth mabwysiadu ymgeisio i'r llys am orchymyn lleoli.

### **2. Gwneud penderfyniadau bod ymgeiswyr mabwysiadol yn addas i gael eu mabwysiadu**

Hyd at 2014, byddai'r un awdurdod / asiantaeth mabwysiadu (o'r 22 yng Nghymru) a aeth â'r cais i'r llys ar gyfer gorchymyn gofal wedi cael ei dîm ei hun yn recriwtio, asesu a chymeradwyo mabwysiadwyr arfaethedig. Ers i'r [Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol](#) ddod i fodolaeth, mae rolau asiantaeth mabwysiadu mewn perthynas â mabwysiadwyr arfaethedig wedi'u dyrannu i'r pum 'tîm cydweithredol rhanbarthol', lle mae'r 22 ALI wedi'u grwpio'n ddaearyddol yn dimau mwy darbodus ac arbenigol. Felly, byddwch yn cael eich asesu a'ch cymeradwyo o fewn un o'r canlynol:

- Gwasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru (SEWAS)
- Y Fro, Y Cymoedd a Chaerdydd (YFYCCh)
- Bae'r Gorllewin
- Canolbarth a Gorllewin Cymru (CGC)
- Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru (GMGC).

Ym mhob un o'r awdurdodau cydweithredol hyn, mae 'awdurdod arweiniol', sy'n cymryd cyfrifoldebau ychwanegol dros yr awdurdodau cydweithredol cyfan.

Hefyd mae dwy asiantaeth fabwysiadu wirfoddol yng Nghymru lle gallwch gael eich asesu a'ch cymeradwyo:

- Cymdeithas Plant Dewi Sant
- Barnardo's Cymru.

Mae pob un o'r asiantaethau hyn yn recriwtio, asesu ac yn cyflwyno i'w panel argymhellaid eich bod yn 'addas i fabwysiadu plentyn'. Yna mae'r unigolyn sy'n gwneud y penderfyniad yn yr asiantaeth yn gwneud y penderfyniad. Weithiau mae un unigolyn sy'n gwneud penderfyniad ar gyfer pob awdurdod cydweithredol, ac ef neu hi yw'r unigolyn ar gyfer yr awdurdod arweiniol yn yr awdurdod cydweithredol (er enghraifft, yr unigolyn ar gyfer GMDDdC yw'r unigolyn ar gyfer Blaenau Gwent.) Fodd bynnag, yn awdurdod cydweithredol Gorllewin Cymru mae mwy nag un unigolyn. Mae gan y ddwy asiantaeth mabwysiadu wirfoddol yng Nghymru unigolion all wneud y penderfyniad bod ymgeiswyr yn addas i fabwysiadu.

### **3. Gwneud penderfyniadau o ran lleoliadau arfaethedig h.y. Penderfyniadau 'paru'**

Yma bydd panel yr awdurdod cydweithredol perthnasol yn gwrandao ar yr argymhelliad ar gyfer paru, ond unigolyn yr awdurdod lleol (yr unigolyn a wnaeth y penderfyniad 'dylai gael ei fabwysiadu' gwreiddiol) fydd yn gwneud y penderfyniad i baru plentyn penodol gyda mabwysiadwr arfaethedig penodol. Mae hyn oherwydd mai'r awdurdod lleol sydd â'r cyfrifoldeb trhianta dros y plentyn o hyd.



Rhai esiamplau o pa banel / unigolyn sy'n gwneud y penderfyniad fydd yn gysylltiedig:

**1. Plentyn o Sir Benfro a mabwysiadwyr o Ganolbarth a Gorllewin Cymru:**

- Yr unigolyn sy'n gwneud penderfyniadau dros y plentyn yn Sir Benfro
- Panel CGC a'r unigolyn sy'n gwneud penderfyniad o ran mabwysiadwyr arfaethedig sy'n addas i fabwysiadu
- Panel CGC a'r unigolyn sy'n gwneud penderfyniad yn Sir Benfro ar gyfer paru

**2. Plentyn o Gaerdydd a mabwysiadwyr o Fae'r Gorllewin:**

- Yr unigolyn sy'n gwneud penderfyniad dros y plentyn yng Nghaerdydd
- Panel Bae'r Gorllewin a'r unigolyn sy'n gwneud penderfyniad ar gyfer mabwysiadwyr arfaethedig
- Panel YFYCCh a'r unigolyn sy'n gwneud y penderfyniad dros baru yng Nghaerdydd

**3. Plentyn o Wrecsam a mabwysiadwyr o Dŷ Ddewi**

- Yr unigolyn sy'n gwneud penderfyniad dros y plentyn yn Wrecsam
- Panel Tŷ Ddewi a'r unigolyn sy'n gwneud y penderfyniad ar gyfer mabwysiadwyr
- Panel GMGC a'r unigolyn sy'n gwneud penderfyniadau dros baru yn Wrecsam






# Adran 4


## Y siwrne i leoli

Ar ôl penderfynu pwy sy'n gyfrifol am pa benderfyniad, isod mae'r broses a ddefnyddir i'ch asesu o ran addasrwydd i fabwysiadu, y penderfyniad y dylai eich plentyn gael ei fabwysiadu ac rydych yn cael eich paru gyda'ch gilydd:

### Eich siwrne chi a siwrne eich plentyn o ran lleoli



### Sut ydych yndodohudi'ch gilydd



# Adran 5

## Cyfrifoldeb rhianta

Cyfrifoldeb rhianta yw'r sail a ddefnyddir i benderfynu sut mae gan oedolion hawliau a chyfrifoldebau tuag at blant (o'u dyddiad geni i'w pen-blwydd yn 18 oed).

Y diffiniad o gyfrifoldeb rhianta (CRh) yw 'yr holl hawliau, dyletswyddau, pwerau, cyfrifoldebau a'r awdurdod sydd gan riant plentyn yn gyfreithiol mewn perthynas â'r plentyn a'i eiddo' (a3(1) Deddf Plant 1989).

Mae gan bob mam geni (biolegol) gyfrifoldeb rhianta. Mae gan dadau geni (biolegol) gyfrifoldeb rhianta os ydyn nhw'n briod â'r fam ar adeg geni'r plentyn, neu'n priodi'r fam wedi hynny, neu os yw eu henw ar y dystysgrif geni (h.y. maen nhw wedi mynychu gyda'r fam i gofrestru genedigaeth y plentyn).

Os caiff **gorchymyn gofal interim** (GGI) neu **ocrhymyn gofal** (GG) ei wneud, yna bydd yr awdurdod lleol yn caffael cyfrifoldeb rhianta ac yn ei rannu gyda'r rhieni geni. Yn hyn o beth mae gan yr ALI (Awdurdod Lleol) y p e r i benderfynu i ba raddau y gall y rhieni naturiol arfer y cyfrifoldeb hwnnw, ond caiff ei ddefnyddio dim ond i ddiogelu neu hybu llesiant y plentyn.

Pan gaiff **gorchymyn lleol** ei greu, yna bydd yr asiantaeth mabwysiadu (sef yr un corff â'r ALI) yn caffael y cyfrifoldeb rhianta a gall yr asiantaeth mabwysiadu bennu i ba raddau y gall y rhieni geni arfer eu cyfrifoldeb rhianta (a25 DMPH). Yma nid oes angen ystyried y cyfyngiad i ond defnyddio CRh i ddiogelu a hyrwyddo (er blaenoriaeth yr ALI fydd hynny o hyd - mae'n golygu, er bod CRh rhieni geni yn dal i fodoli, mae wedi dod yn weddilliol).

Ar ôl i'r plentyn gael ei leoli gyda chi (hynny yw y diwrnod y mae'r plentyn yn symud i mewn gyda chi, yn dilyn cyflwyniadau), byddwch yn cael rhywfaint o gyfrifoldeb rhianta hefyd. Felly yn ystod yr amser rhwng y plentyn yn symud i mewn a dyddiad y gorchymyn mabwysiadu, caiff CRh ei rannu rhwng yr asiantaeth fabwysiadu, chi a'r rhieni geni. Yr ALI sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol a byddwch yn dod i gytundeb rhyngoch o ran pwy all benderfynu hynny. Ar y cam hwn, er bod gennych gyfrifoldeb rhianta ac y byddwch yn gwneud penderfyniadau o ddydd i ddydd fel unrhyw riant arall (dewis ysgol neu feithrinfa, bwyd, torri gwallt ac ati) byddwch eisieu gwneud penderfyniadau mawr mewn ymgynghoriad â'r asiantaeth fabwysiadu, ar ffurf gweithiwr cymdeithasol y plentyn a'ch gweithiwr cymorth eich hun. Ymgynghorir â'r rhieni geni ynghylch penderfyniadau mawr, megis llawdriniaeth, ond bydd penderfyniadau ar unrhyw beth mawr yn cael eu gwneud gan yr asiantaeth mabwysiadu.

Un maes lle mae rhieni mabwysiadol yn cael trafferth ag arfer CRh yw o ran newid enw'r plentyn, yr enw cyntaf a'r cyfenw.

Mewn perthynas â'r cyfenw, mae'r gyfraith yn glir iawn. Wrth gael ei leoli, a chyn i'r gorchymyn mabwysiadu gael ei greu, ni fydd y plentyn yn hysbys gan gyfenw arall (hynny yw eich cyfenw chi) oni bai bod pawb sydd â chyfrifoldeb rhianta, gan gynnwys rhieni geni, neu'r llys yn rhoi caniatâd i newid cyfenw. Mae wedi bod yn gyffredin i blant gael eu hadnabod fel y cyfenw mabwysiadol newydd, er enghraifft mewn meddygfa, meithrinfa neu ysgol, er bod y cyfenw geni yn cael ei roi ar y gofrestr. Fodd bynnag, mae cyfraith achos wedi ei wneud yn glir na ddylai plant gael eu hadnabod fel y cyfenw newydd, heb ganiatâd yr holl rai hynny sydd â chyfrifoldeb rhianta neu ganiatâd y llys. Felly, bydd angen i chi gadw at y cyfenw gwrieddiol ac os oes gennych bryderon ynghylch diogelwch neu os oes gennych blentyn h n wedi'i leoli sydd eisieu dechrau yn yr ysgol â'r cyfenw teulu newydd, dylech siarad â'ch gweithiwr cymdeithasol neu weithiwr cymdeithasol y plentyn ynghylch ceisio caniatâd neu ymgeisio i'r llys.

O ran newid yr enwau cyntaf, byddwch yn gwybod o'ch cwrs paratoi na ddylid newid enw oni bai ei fod yn gwbl angenrheidiol (er enghraifft os yw'r enw y tu allan i ffiniau rhesymoldeb neu os gallai fod yn risg o ran diogelwch). Fodd bynnag, nid oes rhwystr cyfreithiol rhag newid enw cyntaf cyn y gorchymyn mabwysiadu, dim ond y cyfenw.

Wrth wneud y gorchymyn, mae gennych hawl i newid yr enw cyntaf, yr enw canol a'r cyfenw. Mae'r gorchymyn mabwysiadu yn newid yr enw'n gyfreithiol a chaiff yr enw hwnnw ei roi ar y Gofrestr Plant Mabwysiedig ac ymddengys ar dystysgrif mabwysiadu'r plentyn (sy'n disodli'r tystysgrif geni gwreiddiol). Fodd bynnag, cofiwch drafod unrhyw newid sylweddol o ran enw cyntaf gyda'ch gweithiwr cymdeithasol a chofiwch y bydd rhaid i chi esbonio eich gweithredoedd i'ch plentyn pan fydd yn h n.

Ar ôl i'r gorchymyn mabwysiadu gael ei greu, byddwch yn cael CRh llawn a chynhwysol dros eich plentyn ac ni fydd gan yr asiantaeth fabwysiadu a'r rhieni geni unrhyw gyfrifoldeb rhianta mwyach. Yr unig ffordd y gallech golli'r CRh hwnnw yn gyfan gwbl yw pe bai rhywun arall yn creu gorchymyn mabwysiadu arall.



# Adran 6

*Esboniad o'r broses a amlygir mewn oren yn y siart isod – yr heriau posibl ar gyfer mabwysiadwyr arfaethedig yn y broses llys*



## **1. Cais i ddirymu'r gorchymyn lleoli**

Pan fo penderfyniad paru wedi'i wneud, mae gan yr asiantaeth fabwysiadu ddyletswydd i ysgrifennu at y rhieni geni a rhoi gwybod iddynt eu bod yn bwriadu lleoli'r plentyn/plant gyda chi (heb roi eich manylion wrth gwrs).

Ar y cam hwn efallai bydd y rhieni geni yn teimlo mai dyma yw eu cyfle olaf i atal lleoli mabwysiadol drwy wneud cais am ganiatâd i wneud cais i ddirymu gorchymyn lleoli'r plentyn.

Mae'r cam caniatâd hwn yn ymwneud â cheisio caniatâd y llys i ganiatáu i gais ddigwydd a chael gwrandawriad gan y llys.

Wrth geisio caniatâd, mae angen i'r rhieni geni ddangos 'newid' o ran eu hamgylchiadau ers i'r gorchymyn lleoli gael ei greu. Nid oes angen i'r newid hwnnw fod yn sylweddol, ond mae'n rhaid dangos tystiolaeth o welliant yn eu bywydau a'r gallu i rianta ers i'r gorchymyn lleoli gael ei greu.

Os rhoddir caniatâd i'r rhieni geni wneud cais, rhaid i'r cais gael gwrandawriad cyn i'r plentyn gael ei leoli gyda chi. Hyd yn oed os yw'r cyflwyniadau wedi dechrau, ar ôl i'r cais am ganiatâd gael ei gofnodi gyda'r llys ni all y plentyn na'r plant gael eu



lleoli gyda chi hyd nes bod y caniatâd wedi'i wrthod, yn yr achos hwnnw gallai'r plentyn gael ei leoli, neu ei ganiatáu, ac yn yr achos hwnnw rhaid i'r gwrandawriad llawn, yn seiliedig ar yr egwyddorion a nodir yn a1 DMPH 2002, benderfynu p'un a ddylai'r gorchymyn lleoli gael ei ddirymu.

Gall hwn fod yn brofiad anesmwyth i fabwysiadwyr arfaethedig (ac i'r plant) os yw'r cynlluniau ar gyfer cyflwyniadau ar y gweill, ond mae'r hawl i herio ar y cam hwn yn rhan o'r gwiriadau a'r cydbwysedd sy'n sicrhau pan gaiff y gorchymyn mabwysiadu ei greu yn y pen draw, fod hawl y rhieni geni a'r plentyn i brawf teg (erthygl 6 CEHD) ac i fywyd teuluol (erthygl 8 CEHD) wedi'i drin yn briodol ac ond wedi'i ddiystyru oherwydd bod lles y plentyn yn cael ei flaenoriaethu.

Felly, gallai fod peth oedi o ran y cynlluniau ar gyfer cyflwyniadau. Mae'n anodd nodi pa mor hir y gallai'r oedi hwnnw bara, gan fod pob achos yn wahanol. Mae'r llysoedd yn ymwybodol o'r gofid a'r anghyfleustra y gall y broses hon ei hachosi ac yn gallu gwrandao ar gais am ganiatâd ac unrhyw gais llawn dilynol cyn gynted ag y gallent.

## 2. Cais i herio'r cais mabwysiadu

Rydych yn gallu gwneud eich cais am orchymyn mabwysiadu ar ôl i'r plentyn gael ei leoli gyda chi am ddeg wythnos. Ar ôl i chi gofnodi'r cais gyda'r llys, mae gan y llys ddyletswydd i hysbysu'r rhieni geni fod y cais wedi'i wneud. Fel gyda'r cais am ganiatâd i ddirymu'r gorchymyn lleoli, mae angen i'r rhieni geni geisio caniatâd y llys i wneud cais i herio creu'r gorchymyn mabwysiadu a gallant wneud hynny ar yr un sail - hynny yw bod newid wedi bod yn eu hamgylchiadau. Yma eto rhaid i'r llys benderfynu p'un a ddylid rhoi caniatâd, os oes newid mewn amgylchiadau ac os yw er lles y plentyn i'r cais i herio gael gwrandawriad. Os caiff ei ganiatáu, nid yw hyn yn golygu bod y llys yn credu ei fod er lles y plentyn i'r gorchymyn mabwysiadu beidio â chael ei greu; dim ond, mewn synnwyr damcaniaethol iawn, ei fod er lles y plentyn i'r rhieni geni herio creu'r gorchymyn.



Eto mae hyn yn anodd iawn i'r mabwysiadwyr arfaethedig ddelio ag ef; gan fod y plentyn neu'r plant gyda chi erbyn hyn ac yn rhan o'ch teulu. Hoffwn eich sicrhau fod ceisiadau llwyddiannus i herio'r gorchymyn mabwysiadu yn brin. Nid yw'n arbennig o anodd i rieni geni gael caniatâd i wneud y cais; fodd bynnag, yr hyn sy'n anodd yw profi wedi hynny ei fod er lles y plentyn i orchymyn mabwysiadu beidio â chael ei greu ar y cam hwn, pan fo'r plentyn yn setlo gyda chi ac yn dechrau glynu atoch. Yn hanesyddol mae'r anhawster yn codi pan fo aelodau'r teulu sy'n dymuno gofalu am y plentyn wedi amlygu eu hunain i'r llys ar y cam hwyr hwn. Fodd bynnag, mae cyfraith achos mwy diweddar wedi ei wneud yn glir, ar y cam hwn, fod hawl datblygol a phresennol i fywyd teuluol i'r plentyn gyda'r mabwysiadwyr arfaethedig, dan erthygl 8 CEHD, yn cael ei flaenoriaethu dros hawl aelod o'r teulu, nad yw'n adnabod y plentyn ac sydd felly heb sefydlu 'bywyd teuluol' o ran hawl erthygl 8 CEHD.

Hefyd gallai rhiant geni neu aelod o'r teulu geni fod eisiau cofnodi apêl yn erbyn penderfyniad y llys. Mae hyn yn wahanol i'r ceisiadau uchod a chaiff ei gwneud ar ôl i orchymyn (yma, gorchymyn mabwysiadu) gael ei wneud. Mae rheolau cadarn ar gyfer apelio ac nid yw hyn yn gyffredin. Mae cyfyngiad amser o 21 diwrnod o ddyddiad gwneud y gorchymyn er mwyn cofnodi'r apêl. Dylai eich gweithiwr cymdeithasol fod yn ymwybodol os oes unrhyw debygolrwydd o riant geni yn cael sail ar gyfer apêl.

Nid oes unrhyw bwynt dweud wrth fabwysiadwyr arfaethedig i beidio â phoeni, oherwydd, os bydd hyn yn digwydd i chi, bydd yn achosi pryder. Fodd bynnag, mae'n rhan o'r siwrne i ddod yn rhieni mabwysiadol, lle mae angen gwydnwch a 'sefydlogrwydd'. Byddwch hefyd yn derbyn cymorth a chynghor gan yr asiantaeth fabwysiadu, ac yn enwedig eich gweithiwr cymdeithasol eich hun.

# Adran 7

## *Y system ar gyfer adolygu ac ymweld pan fo'r plentyn wedi'i leoli*



### **Rheoliadau Asiantaeth Mabwysiadu (Cymru) 2005**

Ar ôl i'ch plentyn gael ei leoli gyda chi (mae'r lleoliad yn dechrau'r diwrnod y mae'r plentyn yn symud yn barhaol), yna mae'r rheoliadau yn nodi bod rhaid cael **'ymweliadau'** gan yr asiantaeth (Mae hyn fel arfer yn ymweliad gan weithiwr cymdeithasol y plentyn) ac **'adolygiadau'** sef cyfarfodydd, a gynhelir yn eich cartref, lle rydych chi, gweithiwr cymdeithasol y plentyn, eich gweithiwr cymdeithasol chi a 'swyddog adolygu annibynnol' (SAA) yn mynychu. Y SAA sy'n gyfrifol am adolygu achos y plentyn, cadeirio'r cyfarfod a sicrhau bod safbwyntiau'r plentyn yn cael eu deall a'u hystyried. Mae hefyd yn sicrhau bod y bobl sy'n gyfrifol am weithredu penderfyniad yn cael eu nodi a rhoi gwybod i uwch reolwr am unrhyw fethiant i gadw at y penderfyniad a'r trefniadau a wnaed.

#### **Cynhelir adolygiadau:**

- Dim mwy na phedair wythnos ar ôl lleoli
- Dim mwy na thri mis ar ôl yr adolygiad cyntaf
- Dim mwy na chwe mis ar ôl hynny
- Bob chwe mis hyd nes y gwneir y gorchymyn mabwysiadu neu hyd nes y daw'r lleoliad i ben

#### **Mae adolygiadau yn ystyried:**

- P'un a ddylai'r plentyn gael ei fabwysiadu o hyd
- Lles, cynnydd a datblygiad y plentyn, ac unrhyw newidiadau sydd angen eu gwneud i gynorthwyo'r datblygiad
- Y trefniadau presennol ar gyfer cysylltu a ph'un ai a ddylent barhau neu gael eu diwygio
- Ymarfer cyfrifoldeb rhianta
- Y trefniadau ar gyfer cymorth mabwysiadu a ph'un ai a ddylent barhau neu gael eu hailasesu
- Trefniadau ar gyfer anghenion gofal iechyd ac anghenion addysgol (mewn ymgynghoriad â'r awdurdodau priodol). Pan fo gan blentyn anghenion iechyd neu addysgol ychwanegol sylweddol gallai fod yn briodol i berson perthnasol fynychu'r adolygiad

Caiff cofnodion yr adolygiad eu lleoli ar 'gofnod' y plentyn a byddwch chi hefyd yn derbyn copi.

#### **Cynhelir ymweliadau (o leiaf):**

- O fewn un wythnos ar ôl i'r plentyn gael ei leoli
- Ar ôl hynny o leiaf wythnos tan yr adolygiad cyntaf
- Ar ôl yr adolygiad cyntaf, yn achlysurol i'w benderfynu yn yr adolygiad.

Bydd ymweliadau â chi a'r plentyn yn bodloni anghenion lles a chymorth. Bydd hyd, amllder ac amser yr ymweliadau yn dibynnu ar y plentyn a'r lleoliad unigol. Mae ar rai teuluoedd angen mwy o ymweliadau oherwydd cymhlethdod anghenion y plentyn, oherwydd y nifer o blant a leolir neu oherwydd bod ar yr oedolion angen help a chymorth yn yr wythnosau a'r misoedd cynnar. Bydd yr asiantaeth angen darparu cymaint o gymorth ag sy'n angenrheidiol yn ystod y diwrnodau cynnar a bydd hyn yn rhan o'r cynllun cymorth mabwysiadu a ddyluniwyd i'ch teulu .

# Adran 8

## Gwneud cais am orchymyn mabwysiadu

Fel y nodir uchod, gallech wneud y cais am orchymyn mabwysiadu ar ôl i'r plentyn gael ei leoli gyda chi am 10 wythnos. Bydd ar rai pobl angen gwneud y cais ar unwaith; gallai eraill deimlo bod angen ychydig mwy o amser arnynt, efallai i gyfnerthu unrhyw gymorth ôl mabwysiadu neu gyda phlant hŷn iddynt deimlo'n barod ar gyfer y gwrandawriad. Caiff amser y cais ei drafod yn yr ail adolygiad (felly o fewn pedwar mis ar ôl lleoli), os nad yw eisoes wedi'i wneud.

### Yr Hyn syn gysylltiedig a gwneud y cais

#### Y broses

Mae'r broses ar gyfer gwneud y cais ar gyfer mabwysiadu yn amrywio rhwng bob awdurdod rhanbarthol/ Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol. Mewn rhai ardaloedd bydd yr asiantaeth fabwysiadu yn ffeilio'r cais ar eich rhan; mewn ardaloedd eraill byddwch chi'n gwneud y cais, gyda help gan yr asiantaeth.

Ni fydd angen cyngor cyfreithiol neu gynrychiolaeth arnoch wrth wneud y cais a chyrchu'r gorchymyn mabwysiadu. Mae'r cais ei hun yn eithaf syml, ond bydd angen i chi fod yn drefnus a sylweddoli nad yw'r system llys yn berffaith.

Caiff y cais fel arfer ei wneud i'r llys lle cafodd y gorchymyn gofal a'r gorchymyn lleoli eu gwneud, oni bai bod rheswm da i beidio â gwneud hynny. Mae'n arfer da i'r llys (fel arfer y barnwr, ond weithiau'r ynadon) a wnaeth y gorchymynion blaenorol ac sy'n nabod y plentyn, i wrando ar y cais terfynol hwn. Bydd eich gweithiwr cymdeithasol yn gallu rhoi manylion i chi. Mae dolenni i lysoedd teuluoedd Cymru ar gael ar ddiwedd y canllaw hwn.

Mae ffynhonnell wybodaeth hefyd ar gael ar wefan Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (GLIThEM). Mae Ffurflen A20 yn rhoi canllaw i ddefnyddwyr y llys ac mae Ffurflen A58 (y ffurflen gais ei hun) yn rhoi nodiadau atodol.

#### Ymgeisio i'r llys yn Gymraeg neu Saesneg

Mae'r gwasanaeth llys yn dilyn yr egwyddor bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal ym mhob busnes ac wrth weinyddu cyfiawnder. Mae hyn yn golygu y gallwch ymgeisio gyda ffurflen gais Gymraeg ([ar gael yma \[JD2\]](#)), siarad Gymraeg yn eich gwrandawriad ac ymgeisio am dystysgrif mabwysiadu dwyieithog. Bydd eich gweithiwr cymdeithasol a'ch llys lleol yn gallu rhoi cyngor i chi ar hyn, neu gallwch gysylltu ag Uned Iaith Gymraeg gwasanaeth y llys yn uniongyrchol ar 01286 669800.

Bydd angen i chi fel yr ymgeisydd / wyr (â pheth cymorth gan yr asiantaeth fabwysiadu) ffeilio:

**1. Ffurflen gais A58, (Cais am Orchymyn Mabwysiadu), a thri copi.** Gellir lawrlwytho'r ffurflen gais o [wefan GLIThEM](#). Bydd angen i chi roi eich manylion chi a'r plentyn/plant. Gan na fyddwch eisiau i'r rhieni geni gael eich manylion, bydd y llys yn rhoi rhif cyfresol, a ddefnyddir ar holl ddogfennau'r llys yn hytrach na'ch enw. Bydd hefyd angen i chi roi'r enw y bydd y plentyn yn ei ddefnyddio yn dilyn y gorchymyn mabwysiadu. Yna caiff hwn ei nodi ar y 'dystysgrif mabwysiadu', sy'n disodli'r dystysgrif geni gwreiddiol ac yna bydd yn cael ei roi ar y Gofrestr Plant wedi'u Mabwysiadu.

**2. Ffi'r llys** (£170.00 ar hyn o bryd). Bydd rhai asiantaethau yn talu'r ffi hwn; mae eraill yn disgwyl i fabwysiadwyr arfaethedig dalu.

**3. Copi ardystiedig o'r dystysgrif geni llawn i'r plentyn,** neu bob plentyn. Bydd gweithiwr cymdeithasol y plentyn yn rhoi'r rhain i chi.

**4. Copi ardystiedig o'r gorchymyn lleoli.** Eto bydd gweithiwr cymdeithasol y plentyn yn rhoi'r rhain i chi.

**5. 5)Copi ardystiedig o'ch priodas neu bartneriaeth sifil.** Os taw dim ond eich dystysgrif wreiddiol sydd gennych ac os yw o werth emosynol i chi, gallwch gael copïau ardystiedig pellach o'r Swyddfa Gofrestru Ganolog ([www.gro.gov.uk](http://www.gro.gov.uk)). Mae rhai

gwreiddiol wedi mynd ar goll felly gwnewch hynny er mwyn bod yn sicr. Codir ffi ond nid yw'n ddrud iawn.

Mae'n syniad da i anfon y dogfennau hyn, gyda llythyr eglurhaol byr i'r clerch i'r llys teuluoedd perthnasol, trwy'r llwybr post mwyaf diogel sydd ar gael, ar ôl gwneud copi i chi a chopi i'ch gweithiwr cymdeithasol. Yna e-bostiwch eich gweithiwr cymdeithasol a gweithiwr cymdeithasol y plentyn gan roi gwybod iddynt eich bod wedi gwneud y cais, er mwyn i bawb wybod y dyddiad y cafodd y cais ei anfon a phryd y bydd yn cyrraedd y llys.

Byddwch yn clywed yn ôl gan y llys, yn ysgrifenedig, yn dweud wrthyfch bod eich ffurflen gais wedi'i chyflwyno, gan roi derbynneb i chi am y ffi a rhoi gwybod i chi am ddyddiad y gwrandawriad cyfarwyddiadau cyntaf, ymhen tua 4 wythnos.

Os nad ydych wedi clywed yn ôl gan y llys o fewn tair wythnos ar ôl postio, dylech ffonio'r llys i holi beth sydd wedi digwydd gyda'r cais.



Ni ddisgwylir i chi fynychu'r gwrandawriad cyfarwyddiadau, oherwydd gall y rhieni geni fynychu er mwyn ceisio caniatâd i herio'r cais. Bydd eich gweithiwr cymdeithasol a gweithiwr cymdeithasol y plentyn yn mynychu yn eich lle ac yn rhoi gwybod i chi am ganlyniad y gwrandawriad.

Bydd y gwrandawriad cyfarwyddiadau yn sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol yn cael ei ffeilio, gan gynnwys adroddiad Atodiad A gan yr asiantaeth fabwysiadu, yn rhoi gwybodaeth arnoch chi, y plentyn a sut mae'r lleoliad yn mynd rhagddo. Caiff dyddiad ei nodi ar gyfer y gwrandawriad terfynol, neu os yw'r rhieni yn gwneud cais am ganiatâd i herio, dyddiad ar gyfer y gwrandawriad.

Bydd yn teimlo fel bod y broses yn cymryd yn rhy hir ac yn feichus. Mae angen i chi gofio eich bod chi bron yno.



Pan gaiff eich cais ei gofnodi gyda'r llys mae gan y llys ddyletswydd i roi gwybod i'r rhieni geni fod y cais wedi'i wneud a dyddiad y gwrandawriad cyfarwyddiadau cyntaf. Mewn rhai ardaloedd bydd y llys yn dirprwyo'r cyfrifoldeb hwnnw i'r awdurdod lleol. Yna bydd y rhieni geni yn ceisio cyngor cyfreithiol ac yn gwneud cais am ganiatâd i herio'r cais mabwysiadu. Nid yw cymorth cyfreithiol / cyllid cyhoeddus ar gael ar gyfer ceisiadau mabwysiadu a gaiff eu herio ac felly bydd nifer o rieni geni yn ymddangos yn y llys heb gynrychiolaeth. Caiff y cais hwn am ganiatâd fel arfer ei drin yn y gwrandawriad cyfarwyddiadau cyntaf a bydd y llys yn gwrando ar y cais am ganiatâd hebddoch chi yno. Mewn nifer o achosion bydd y cais hwnnw yn methu a bydd y gwrandawriad hwnnw yn mynd yn ei flaen heb ei herio. Pe bai'r cais yn llwyddiannus, byddwch yn mynd i banig, ond cofiwch fod angen i'r llys wybod ei fod wedi cyflawni ei ddyletswyddau dan Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 ac erthyglau 6 (yr hawl i brawf teg) ac 8 (yr hawl i fywyd preifat a theuluol) y CEHD. Mae cyfraith achos diweddar wedi canolbwyntio ar hawliau erthygl 8 y plentyn mewn perthynas â'i fywyd ef neu hi gyda chi a'r cysylltiadau sydd wedi bod yn datblygu ers i'r plentyn gael ei leoli. Mae barnwyr hefyd wedi rheoli nad yw neiniau a theidiau ac aelodau eraill o'r teulu eto wedi sefydlu'r hawl i fywyd teuluod dan erthygl 8 drwy gael cysylltiad genetig â'r plentyn. Bydd y gyfraith achos hon yn helpu os daw aelod o'r teulu i mewn ar y cam hwyr hwn i gynnig eu hunain i ofalu am y plentyn.

Os caiff y gwrandawriad ei herio efallai bydd angen i chi roi tystiolaeth yn y llys am y plentyn a sut mae'r lleoliad yn mynd. Nid yw'n digwydd yn aml, ond cofiwch mai chi nawr yw'r bobl sy'n adnabod y plentyn orau a dyna pam y gallai'r llys fod eisiau



clywed gennych chi. Gwneir trefniadau i sicrhau nad ydych yn dod i gysylltiad ac nad ydych yn cael eich gweld gan y rhieni geni na'r teulu. Bydd eich gweithiwr cymdeithasol a gweithiwr cymdeithasol y plentyn yno i'ch cefnogi.

Dan rai amgylchiadau, gallai fod yn briodol i chi gael eich cynrychiolaeth gyfreithiol eich hun, yn hytrach na dibynnu ar yr awdurdod lleol. Yn yr achos hwn mae'n gyffredin i'r awdurdod lleol dalu am gostau cyfreithiol rhesymol.

Hyd yn oed os yw'r gwrandawriad wedi'i bennu gan y llys fel heb ei herio (hynny yw nad yw'r rhieni geni wedi ymgeisio am, neu wedi cael, caniatâd), gallai'r rhieni fynychu'r gwrandawriad terfynol. A dyna pam, mewn rhai ardaloedd o'r wlad, y caiff rhieni mabwysiadol a phlant ganiatâd i beidio â mynychu'r gwrandawriad. Fodd bynnag, mewn ardaloedd eraill, disgwylir i chi fynychu a gwneir trefniadau i'ch cadw chi a'r rhieni geni ar wahân.

Yn mhob achos, cynigir gwrandawriad 'dathlu' a gellir ei gynnal wythnosau ar ôl i'r gorchymyn mabwysiadu gael ei wneud, lle mae'r plentyn yn cwrdd â'r barnwr neu'r ynadon a wnaeth y gorchymyn, caiff lluniau eu tynnu a rhoddir tystysgrif, cerdyn neu anrheg fach i'r plentyn fel cofrodd. Bydd ymdeimlad y gwrandawriad yn dibynnu ar y farnwriaeth unigol – bydd rhai yn ffurfiol; ac eraill yn anffurfiol iawn. Mae wastad yn werth gwirio gyda chlerc y llys o ran sut mae'r barnwr neu'r ynadon penodol yn rhedeg y digwyddiad hwn. Bydd gan eich gweithiwr cymdeithasol fwy na thebyg syniad da os yw'n llys lleol.

Mae rhai rhieni mabwysiadol wedi mynegi siomedigaeth gyda'r gwrandawriad dathlu, oherwydd nid dyma pryd y caiff y gorchymyn ei wneud a gall deimlo fel rhywbeth sy'n rhan o'r weithdrefn. Fodd bynnag, o safbwynt y plentyn, gall cael llun i'w gadw o'r barnwr neu'r ynadon a wnaeth y gorchymyn pwysig hwn gael arwyddocâd pwysig yn ddiweddarach mewn bywyd, hyd yn oed os nad ydyw ar y pryd, ac mae'n werth gwneud y mwyafrif o'r diwrnod, drwy feddwl amdano fel achlysur a derbyn y ffurfioldeb fel rhan o'r pwysigrwydd hwnnw. Bydd y mwyafrif o deuluoedd yn mynd i'w dathliad eu hunain, yn dibynnu ar anghenion penodol y plentyn.

# Adran 9

## Cyswllt ôl-fabwysiadu

Yr hen syniad o fabwysiadu lle nad oes unrhyw gyswllt rhwng y plentyn a'i deulu geni. Ni ddylech ddisgwyl cynllun dim cyswllt oni bai bod y rhieni'n beryglus, wedi diflannu neu wedi marw. Am nifer o flynyddoedd nawr mae ymchwil wedi dangos bod cadw rhyw fath o gyswllt, ynghyd â chyfathrebu'n agored gyda'ch plentyn am ei deulu geni, yn cryfhau ymdeimlad y plentyn o hunan hyder a lles ac yn y pen draw yn cryfhau'r teulu mabwysiadol. Mae cyswllt hefyd yn cadw ymdeimlad o realiti i'r plentyn hwnnw o ran ei 'siwrne bywyd'.

Byddwch wedi ymdrin â'r pwnc cyswllt hwn yn eich cwrs paratoi ac felly dim ond amlinelliad o'r fframwaith cyfreithiol yw hwn:



### **Bydd rhieni geni (a'r teulu ehangach) yn cysylltu â'r plentyn cyn i'r gorchymyn gofal a'r gorchymyn lleoli gael eu gwneud.**

Os cafodd y plentyn ei dynnu dan delerau'r gorchymyn gofal interim yn ystod yr achosion gofal, bydd ef neu hi wedi cael rhywfaint o gyswllt gyda'r rhieni geni, brodyr a chwiorydd (os cânt eu lleoli ar wahân) ac, mewn rhai amgylchiadau, aelodau ehangach o'r teulu. Darperir y cyswllt hwn dan a34 Deddf Plant 1989 lle mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd i ddarparu cyswllt rhesymol, cyhyd â'i fod er lles i'r plentyn. Os oes anghytundeb ynghylch math ac amllder y cyswllt rhwng y partion i'r achosion gofal, yna gallai'r llys fod wedi gwneud gorchymyn cyswllt a34 DP. Bydd y darpariaethau / gorchymynion yn para hyd nes i'r llys wneud gorchymyn lleoli. Mae hyn yn golygu, hyd nes i'r gorchymyn gofal a'r gorchymyn lleoli gael eu gwneud, gallai'r plentyn fod wedi bod yn cael cyswllt rheolaidd gyda'r rhieni geni, sawl gwaith yr wythnos efallai.

### **Cyswllt ar ôl y gorchymyn lleoli**

Ar ôl i'r plentyn gael ei gyfeirio i'w fabwysiadu drwy orchymyn lleoli, mae darpariaethau a34 DP 89 yn dod i ben a daw darpariaethau a26 DMPH i rym. Yma nid oes dyletswydd i ddarparu cyswllt rhesymol. Gallai'r llys, mewn rhai amgylchiadau, wneud gorchymyn cyswllt a26, ond mae hynny'n brin. Caiff y cynllun ar gyfer cyswllt ei roi gerbron y llys fel rhan o gynllun gofal llys y plentyn, a bydd (fel arfer) yn cynnwys gostyngiad o ran cyswllt uniongyrchol gan derfynu'r cyswllt hwn ar ôl i'r cynlluniau ar gyfer cyflwyniadau gyda chi ddod i rym. Bydd eich plentyn fel arfer wedi cael y cyswllt uniongyrchol terfynol ychydig o wythnos cyn iddo gwrdd â chi.

Mae'r cynllun ar gyfer cyswllt ôl-fabwysiadu hefyd yn creu rhan o'r cynllun gofal llys a bydd wedi'i nodi yn y ffurflen CAR, y byddwch wedi'i ddarllen cyn paru. Bydd hyn fel arfer yn cynnwys cyswllt 'blwch llythyrau' unwaith neu ddwywaith y flwyddyn gyda rhieni geni ac aelodau eraill o'r teulu efallai, ac, yn fwy anarferol, cyswllt uniongyrchol. Nid yw cyswllt uniongyrchol fel arfer

yn digwydd gyda rhieni geni, ond mae'n dod yn fwy cyffredin rhwng brodyr a chwiorydd, yn enwedig pan gaiff brodyr a chwiorydd eu gwahanu a phan fo dau deulu mabwysiadol yn gysylltiedig. Gellir hefyd gynllunio cyswllt uniongyrchol gyda nain/taid sydd wedi bod yn gymorth i'r plentyn, ond eto mae hyn yn brin. Byddwch yn cael cyngor gan eich gwasanaeth cymorth mabwysiadu eich hun o ran beth i'w roi mewn llythyr a sut i reoli cyswllt wyneb yn wyneb lle caiff hyn ei ganiatáu.

Byddwch yn cael y cynllun cyswllt fel rhan o gynllun gofal y plentyn a disgwylir i chi, os byddwch yn cytuno i baru, byddwch hefyd yn cytuno i'r cynllun cyswllt hwnnw; mae'r rheiny sy'n adnabod y plentyn orau yn credu bod y cyswllt hwn yn beth cadarnhaol, fel rhieni mabwysiadol arfaethedig, dylech anrhydeddu'r cytundeb hwnnw.

### **Cyswllt wedi'r gorchymyn mabwysiadu**

O ran y gwrandawriad mabwysiadu ei hun, lle cewch gyfrifoldeb rhianta llawn, mae'n brin iawn i'r llys wneud gorchymyn ar gyfer cyswllt ôl-fabwysiadu (er mae darpariaeth o'r fath ar gyfer gorchymyn yn a51A DMPH. Mae'r llysoedd yn credu mai eich cyfrifoldeb chi fel rhieni cyfreithiol llawn yw penderfynu beth sydd orau i'ch plentyn, ond maen nhw hefyd yn disgwyl i chi gadw at y cynllun cyswllt a gyflwynir gan yr asiantaeth mabwysiadu. Weithiau bydd y llys yn nodi'r cytundeb ar gyfer cyswllt 'ar wyneb y gorchymyn'; hynny yw caiff y cytundeb ei ysgrifennu ar y gorchymyn mabwysiadu ei hun. Nid yw hyn yn golygu ei fod yn orchymyn ar gyfer cyswllt ond mae'n dangos bod cytundeb difrifddwys wedi'i wneud.

Dan a51A DMPH mae gan y llys hefyd y pŵer i orchymyn dim cyswllt rhwng y plentyn mabwysiedig ac aelodau'r teulu geni.

Os penderfynwch, ar ôl dod i adnabod y plentyn ac ar ôl gweld effeithiau unrhyw gyswllt uniongyrchol nad ydych yn credu ei fod er lles y plentyn, yna mae gennych hawl i newid y cyswllt hwnnw. Bydd angen i chi roi rhesymau da i'r asiantaeth o ran pam rydych yn credu y dylai'r cyswllt stopio neu gael ei addasu a byddwch eisiau gwneud hynny ar y cyd â'r asiantaeth ei hun. Mae'n bwysig eich bod yn rhoi eich rhesymau yn ysgrifenedig i'r asiantaeth gan fod cyfraith achos yn nodi bod angen i chi wneud hyn, er mwyn rhoi rhesymau i'r teulu geni.

Pan fo'r gorchymyn mabwysiadu yn cael ei wneud, gall aelodau o'r teulu geni ymgeisio am ganiatâd i wneud cais am orchymyn cyswllt ôl-fabwysiadu. Mae'r broses ganiatâd yn gadarn ac mae'n rhaid i'r llys ystyried unrhyw risg i'r plentyn y gall y cais ei achosi, cysylltiad yr ymgeisydd â'r plentyn a safbwyntiau'r plentyn a'r rhieni mabwysiadol. Mae gwneud gorchymynion ar gyfer cyswllt yn ebyrn dymuniadau'r rhieni mabwysiadol yn brin iawn gan nad yw'r llysoedd eisiau ymyrryd â chi'n arfer eich cyfrifoldeb rhianta ar gyfer eich plentyn. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth yn bodoli.





# Adran 10

## Gwasanaethau cymorth mabwysiadu



Mae cyfuniad o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 a chyfres arall o reoliadau, Rheoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2005, yn rhoi'r fframwaith ar gyfer cymorth mabwysiadu.

Nid yw'r canllaw hwn yn ymwneud â manylion cymorth mabwysiadu, ond mae'n rhoi gwybodaeth ar y fframwaith cyfreithiol. Byddwch wedi edrych ar hyn yn eich cyrsiau paratoi ac mae tudalennau cymorth mabwysiadu ymroddedig ar [wefan y GMC](#).

### Ffurio'r cynllun cymorth

Pan fo gweithiwr cymdeithasol y plentyn yn creu Adroddiad Mabwysiadu'r Plentyn (AMP), sy'n mynd i'r unigolyn yn yr awdurdod lleol sy'n gwneud y penderfyniadau i benderfynu a ddylai'r plentyn gael ei fabwysiadu, bydd yr AMP yn cynnwys cynllun cymorth, sydd wedi'i seilio ar anghenion unigolyn y plentyn. Caiff y cynllun hwnnw ei ailystyried ar y cam paru, oherwydd bydd angen i'r cynllun cymorth adlewyrchu nid yn unig y plentyn, ond hefyd yr anghenion sy'n codi o'r plentyn yn cael ei leoli gyda'r teulu penodol hwn. Erbyn i'r gorchymyn mabwysiadu gael ei greu, fisoedd wedi'r lleoli, dylai'r cynllun cymorth mabwysiadu adlewyrchu'r anghenion cymorth na ellir eu rhagweld a'r cymorth a gynigir.

Mae'r rheoliadau cymorth hefyd yn nodi ei fod yn ofyniad i holl asiantaethau mabwysiadu awdurdod lleol ddarparu asesiad o anghenion cymorth mabwysiadu i deuluoedd, felly mae gennych hawl fel teulu mabwysiadol i ofyn am asesiad o'ch anghenion cymorth mabwysiadu ar unrhyw adeg hyd nes bod y plentyn yn 18. Derbynnir y bydd y rhan fwyaf o deuluoedd mabwysiadol, ar ryw adeg, angen defnyddio'r gwasanaethau cymorth. Mae gofyn am asesiad yn arwydd o gryfder, nid arwydd o wendid; rydych yn creu neu'n cwblhau eich teulu gyda rhai o'r plant mwyaf agored i niwed a chymhleth yn y wlad. Mae Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, yr awdurdodau cydweithredol rhanbarthol a'r holl awdurdodau lleol yn derbyn hyn ac mae gwaith yn mynd rhagddo, trwy'r GMC a'r 'Fframwaith ar gyfer cymorth mabwysiadu', i gynnig gwasanaethau cymorth hygyrch, cyson ag adnoddau.

Os caiff plentyn ei leoli â rhieni mabwysiadol arfaethedig y tu allan i ardal awdurdod lleol lle roedd ef neu hi yn byw yn wreiddiol, neu'n symud i ardal awdurdod lleol wahanol, yna am y tair blynedd cyntaf ar ôl i'r gorchymyn mabwysiadu gael ei wneud, mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd i ddarparu gwasanaethau cymorth mabwysiadu. Ar ôl tair blynedd mae'r ddyletswydd yn symud i'r awdurdod lleol lle mae'r teulu mabwysiadol yn byw.

Er nad yw'r asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol yn cyflawni asesiad statudol ar gyfer cymorth mabwysiadu, byddant yn darparu ymgynghoriad cychwynnol i deuluoedd a gymeradwyir gan yr asiantaeth ac yn cynorthwyo wrth bennu'r math o gymorth sy'n ofynnol. Mae Adoption UK ac AFA Cymru hefyd yn cynnig gwasanaeth atgyfeirio i deuluoedd sy'n ceisio cyngor, gwybodaeth a chymorth.



# Adran 11

## *Rhannu gwybodaeth gyda'ch plentyn/plant*

Y rhieni mabwysiadol yw gwarcheidwaid hanes bywyd eu plant. Cewch offer defnyddiol i'ch helpu ar hyd y ffordd, ond chi fydd y brif ffynhonnell wybodaeth ar gyfer y plentyn.

Byddwch yn gweld copi o **Mabwysiadu'r Plentyn (AMP)** cyn i chi gael eich paru; byddwch wedi cytuno ar y paru ar ôl ystyried yr holl wybodaeth gefndir am y plentyn a'r teulu sy'n rhan ohono. Caiff yr AMP ei roi ar gofnod mabwysiadu'r plentyn, sef ffeil a gedwir yn ddiogel gyda'r holl wybodaeth, deunyddiau cyswllt a chyfathrebu a wneir dros y blynyddoedd. Bydd gennych gopi o'r AMP i'w gadw.

Pan fyddant yn troi'n 18 oed, dan Reoliadau Mynediad i Wybodaeth (Mabwysiadu Ôl-gychwyn) (Cymru) 2005, mae gan yr oedolyn ifanc a fabwysiadwyd yr hawl i dderbyn yr holl wybodaeth yr ydych wedi'i chael, ac mae hyn yn cynnwys yr AMP. Felly eich tasg chi yw sicrhau bod eich plentyn, erbyn iddo ddod yn oedolyn, yn gwybod popeth sydd yn yr AMP, fel nad oes unrhyw syndod os yw ef neu hi eisiau ei weld. Rydych yn darparu'r wybodaeth drwy roi mwy o fanylion wrth i'r plentyn fynd yn h n, gan gadw'r 'cyfathrebu agored' hwn rhyngoch chi.

Mae gan bob plentyn a gaiff ei fabwysiadu lyfr 'hanes bywyd' neu 'siwrne oes', wedi'i greu iddo ef ac i chi, i ddechrau rhannu'r wybodaeth. Dylech gael hwn erbyn yr ail adolygiad (hynny yw o fewn 4 mis ar ôl i'r plentyn gael ei leoli) ar yr hwyraf.

Cewch hefyd 'llythyr yn ddiweddarach mewn bywyd' a ysgrifennir gan weithiwr cymdeithasol y plentyn i'w gadw a'i roi ar ryw adeg yn ystod llencyndod. Mae'r llythyr yn ddiweddarach mewn bywyd yn creu pont rhwng y llyfr hanes bywyd, a gaiff ei deilwra i ddiwallu oedran y plentyn pan gaiff ei leoli, a'r AMP, dogfen i oedolyn.

Bydd gan rai rhieni mabwysiadol wybodaeth anodd iawn i'w rhannu â'r plant. Yn yr achosion hyn caiff help ei nodi a'i ddarparu trwy'r cynllun cymorth mabwysiadu, gyda mynediad i wasanaethau arbenigol os oes angen.



# Adran 12

## Gwybodaeth / dolenni defnyddiol

Rhestr o lysoedd teulu yng Nghymru.

Gallwch hefyd fynd i wefan y [Gwasanaeth Llys](#) a nodi eich cod post i ddod o hyd i'ch llys mabwysiadu agosaf a'r rhif ffôn

### **Llinell Gymorth yr Iaith Gymraeg**

Ffôn: 0800 212 368

### **Canolfan Gyfiawnder Aberystwyth**

Y Lanfa  
Trechfan  
Aberystwyth  
Ceredigion  
SY23 1AS  
Ffôn: 01970 621 250

### **Llys Teulu a Llys Sirol Caernarfon**

Canolfan Gwrandawiadau Llys Teulu a Llys Sirol Caernarfon,  
Ffordd Llanberis,  
Caernarfon,  
Gwynedd,  
LL55 2DF  
Ffôn: 01286 684 600

### **Canolfan Cyfiawnder Sifil a Theulu Caerdydd**

Canolfan Cyfiawnder Sifil a Theulu Caerdydd,  
2 Heol Y Parc,  
Caerdydd,  
CF10 1ET  
Ffôn: 029 2037 6400

### **Conwy Gwrandawiadau llys:**

Conwy Road  
Llandudno  
Conwy  
LL30 1GA

### **Canolfan Gyfiawnder Prestatyn**

Llys Sirol a Llys Teuluol  
Victoria Road  
Prestatyn  
Sir Ddinbych  
LL19 7TE  
Ffôn:01745 85191

### **Canolfan Gwrandawiadau Llys Teulu a Llys Sirol Hwlfordd,**

Penffynnon,  
Hawthorn Rise, Haverfordwest,  
Dyfed,  
SA61 2AX  
Ffôn 01437 772 060

### **Llys Sifil a Llys Teulu Casnewydd (Gwent)**

5ed Llawr T Clarence,  
Clarence Place,  
Casnewydd,  
Gwent, NP19 7AA  
Ffôn: 01633 245040

### **Canolfan Gwrandawiadau Llys Sirol a Llys Teuluol Pontypridd**

Y Llys  
Courthouse Street  
Pontypridd  
Rhondda Cynon Taf  
CF37 1JR  
Ffôn:01443 490 800

### **Canolfan Cyfiawnder Sifil a Theulu Abertawe**

Canolfan Gwrandawiadau Canolfan Cyfiawnder Sifil a Theulu  
Abertawe,  
Tŷ Caravella,  
Cei y Gorllewin  
Parêd y Cei  
Abertawe  
SA1 1SP  
Ffôn: 01792 485800

ADM (yr unigolyn sy'n gwneud y penderfyniadau)  
ALI (awdurdod lleol)  
AM (asiantaeth mabwysiadu)  
AMA (adroddiad mabwysiadwyr arfaethedig)  
AMP (adroddiad mabwysiadu plant)  
CEHD (Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol)  
CRh (cyfrifoldeb rhianta)  
Deddf GCL (Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014)  
DHD (Deddf Hawliau Dynol 1998)  
DMPH (Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002)  
DP (Deddf Plant 1989)  
GG (gorchymyn gofal)  
GGI (gorchymyn gofal interim) GLI (gorchymyn lleoli)  
GM (gorchymyn mabwysiadu)  
GMC (Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol)  
RhAM(C) (Rheoliadau Asiantaeth Mabwysiadu (Cymru) 2005)  
SAA (swyddog adolygu annibynnol)

### Astudiaeth carfan mabwysiadu Cymru

Yr hyn a ddywedodd rhieni wrthym am fynd i'r llys

Prif Ymchwilydd: Dr. K Shelton; noddwr Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, Cyfeirnod Grant: SC-12-04

Mae rhai rhieni mabwysiadol wedi cael eu drysu ac hyd yn oed yn bryderus ynghylch y broses gyfreithiol o fabwysiadu. Mae'n anarferol i ymgeiswyr gael cyngor cyfreithiol neu gynrychiolaeth, oherwydd bod ceisiadau mabwysiadu fel arfer yn cael eu hystyried fel rhai syml. Felly mae mabwysiadwyr yn dibynnu ar wybodaeth gan weithwyr cymdeithasol ac ar eu hadnoddau eu hunain i lywio'r broses llys. Ar ôl trafod darganfyddiadau'r astudiaeth hon gyda chyfreithwyr lleol, y teimlad oedd y gallai mabwysiadwyr gael eu hysbysu'n well am y broses gyfreithiol yn ystod camau cynnar y broses lleoli.

Felly mae'r tîm ymchwil yn falch bod y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol ac AFA Cymru yn gweithio ynghyd ar gynhyrchu canllaw.

Dyma rai o'r uchafbwyntiau o ran beth ddywedodd mabwysiadwyr wrthym:

### Ceisiadau a gafodd eu herio:

Yn ffodus, nid oedd y mwyafrif o fabwysiadwyr wedi dod ar draws apeliadau annisgwyl gan rieni geni na rhwystrau cyfreithiol eraill i'r broses fabwysiadu. Roedd y rheiny a oedd wedi wynebu ceisiadau a gafodd eu herio (traean) fel arfer yn teimlo eu bod wedi cael eu hysbysu'n gywir am yr hyn i'w ddisgwyl. Fodd bynnag, roedd rhai wedi gwneud gwaith ymchwil ar y rhyngwyd oherwydd nad oeddent yn deall pam na sut roedd rhieni geni mewn sefyllfa i wrthwynebu'r cais mor hwyr.

### Oedi:

Roedd bron pob un o'r mabwysiadwyr eisiau parhau â'r cais cyn gynted â phosibl gan fod y cyfnod 10 wythnos gofynnol ar ôl lleoli wedi dod i ben. Roedd oedi – yn enwedig heb esboniad – yn peri rhwystredigaeth fawr a gallai greu pryder. Roedd dau o bob tri o ymatebion yr holiadur yn crybwyll oedi gweinyddol gan weithwyr cymdeithasol awdurdod lleol. Roedd mabwysiadwyr yn ymwybodol fod gan weithwyr cymdeithasol lwythi gwaith mawr a'u bod dan bwysau, felly roeddent fel arfer yn sympathetig

gydag unrhyw oedi. Yr hyn roeddent yn bryderus yn ei gylch oedd cael eu gadael am wythnosau heb unrhyw newyddion, a darganfod nad oedd materion wedi cynyddu.

### Talu ffi'r llys:

Nid oedd pawb wedi cael gwybod eu bod yn gorfod talu ffi'r llys, £170 ar hyn o bryd. Cynigiodd rhai awdurdodau lleol helpu gyda'r taliad ond roedd anghysondeb.

### Y gwrandawriad dathlu:

Roedd y mwyafrif o deuluoedd wedi mwynhau'r gwrandawriad dathlu ac roedd y rheiny a oedd yn ddigon hen i'w ddeall yn teimlo ei fod yn ddigwyddiad pwysig iddyn nhw. Fodd bynnag, nid oedd rhai mabwysiadwyr wedi mynychu oherwydd eu bod yn teimlo ei fod yn rhy ffurfiol.

### Problemau eraill:

- Anawsterau wrth gael pasbortau.
- Ansicrwydd ynghylch defnyddio enw newydd i'r plentyn.
- Derbyn llythyrau annisgwyl gan y rhieni geni.
- Dim llawer o gof o'r hyn yr oedd yr hyfforddiant cyn-mabwysiadu wedi'i gynnwys am y cyfnodau wedi'r lleoli.
- Ddim yn gwybod beth oedd wedi digwydd i'w tystysgrif priodas.
- Pryd i ddisgwyl dyddiadau gwrandawriad ar ôl i'r cais gael ei gyflwyno.
- Jargon a ddefnyddir mewn llythyrau gan y llys.
- Nid oedd rhai mabwysiadwyr wedi cael gwybod pryd oedd y gorchymyn wedi mynd rhagddo ac nid oeddent yn gwybod pwy oedd yn gyfrifol am roi gwybod iddynt.

### Casgliad:

Nid oedd ein hymchwil wedi dangos unrhyw dystiolaeth bod y problemau hyn wedi effeithio'n negyddol ar y lleoli, ond roedd neges gref gan ymgeiswyr mabwysiadol y bydden nhw wedi teimlo'n well ac yn llai pryderus pe baent yn gwybod beth i'w ddisgwyl am y broses llys. Gwaneth rhieni rai awgrymiadau, megis taflen yn esbonio'r telerau cyfreithiol; canllaw cam wrth gam neu siart lif o'r broses; a gwybod pwy oedd yn gyfrifol am beth, a phryd. Ar gamau cynnar hanfodol y lleoli, mae'n bwysig ceisio osgoi amheuaeth ac ansicrwydd diangen, oherwydd problemau gweithdrefnol.



Gwasanaeth  
**Mabwysiadu**  
Cenedlaethol

National  
**Adoption**  
Service

**Achieving More Together /  
Cyflawni Mwy Gyda'n Gilydd**

in partnership

